**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/1347/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@senedd.wales

7 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 26 Mai 2023, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fy mod wedi rhoi cymeradwyaeth ar gyfer Gorchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio) 2023, ac mae'r Gorchymyn wedi cael ei osod yn Senedd y DU. Bydd y Gorchymyn yn gwneud newidiadau i Orchymyn Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2008 (Gorchymyn AHDB).

Sefydlwyd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth drwy Orchymyn 2008, o dan bwerau yn Neddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Deddf NERC).

Mae Gorchymyn 2023 yn diwygio Gorchymyn 2008, ac mae'n cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 87, 88 a 97(1) o Ddeddf NERC, a pharagraff 6(a) o Atodlen 8 a pharagraffau 5 ac 8 o Atodlen 10 i'r Ddeddf honno, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.